



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)



# Arolygiadau Estyn

Beth yw'ch barn chi ar y rheolau ar gyfer Arolygiadau Estyn

6<sup>eg</sup> Chwefror - 1<sup>eg</sup> Mai 2013



*Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

# Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru eisiau i'r plant a'r bobl ifanc i gyd yng Nghymru gael yr addysg orau a'r cyfleoedd gorau mewn bywyd y gallan nhw eu cael.

Mae Estyn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i wneud yn siŵr bod pob ysgol yng Nghymru cystal ag y gall fod.

## Sut maen nhw'n gwneud hyn?

Mae Estyn yn anfon pobl i mewn i ysgolion i weld sut maen nhw'n gweithio ac i weld a ydyn nhw'n rhoi'r addysg orau y gallan nhw i'w plant a'u pobl ifanc. Yna, mae Estyn yn ysgrifennu adroddiad fel bod pawb yn gwybod sut hwyl y mae pob ysgol yn ei chael ar bethau.

Mae arolygiadau Estyn yn digwydd mewn:

- ysgolion meithrin sy'n cael arian oddi wrth awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- ysgolion annibynnol
- unedau cyfeirio disgyblion
- colegau addysg bellach
- dysgu oedolion yn y gymuned
- dysgu seiliedig ar waith.

Yn ystod 2012, gofynnodd Estyn i bobl ledled Cymru ddweud eu barn ar arolygiadau. Dywedodd pobl fod llawer o'r hyn y mae Estyn yn ei wneud yn dda iawn. Ond mae yna rai pethau y mae pobl yn meddwl bod angen iddyn nhw newid.

**Arolygiad** yw'r enw ar y cyfnod pan mae rhywun yn dod i wirio sut hwyl y mae'ch ysgol yn ei chael ar bethau.



Mae'r llyfryn yma'n rhoi gwybod i chi am y newidiadau rydyn ni'n ystyried eu gwneud ac rydyn ni eisiau gwybod beth yw'ch barn chi arnyn nhw.



# Mae ysgolion yn gallu dyfalu pryd y bydd eu harolygiad yn digwydd!

Mae ysgolion yn cael eu harolygu bob 6 blynedd.

Mae hyn yn golygu bod rhai ysgolion yn gallu dyfalu pryd y bydd eu harolygiad nesaf yn digwydd. Mae rhai ysgolion wedi dod yn dda iawn am ddyfalu pryd y bydd Estyn yn ymweld â nhw. Mae hyn yn golygu eu bod nhw'n gallu cynllunio'n dda ar ei gyfer.

Gall Estyn ymweld ag ysgol a'i harolygu mewn llai o amser na 6 blynedd, ond byddai hynny'n golygu symud ysgolion eraill i amser arall. Nid yw'n hawdd gwneud hyn.

Yr unig ffordd i atal ysgolion rhag dyfalu pryd y bydd eu harolygiadau'n digwydd yw cael gwared â'r rheol 6 blynedd.

Buasai hyn yn dda oherwydd:

- dylai ysgolion fod yn barod am arolygiad unrhyw adeg
- buasai ysgolion yn fwy tebygol o wirio'u hunain
- buasai rhieni'n gwybod bod yr ysgolion cystal ag y gallan nhw fod trwy'r amser
- buasai llai o bwysau ar athrawon.



Cwestiwn 1



# Arolygiadau ac ymweliadau

Mae yna lawer o ysgolion da yng Nghymru ond mae angen i rai o'r ysgolion y mae Estyn yn eu harolygu newid y ffordd y maen nhw'n gweithio er mwyn gwella. Mae Estyn yn ymweld â'r ysgolion hyn fwy nag unwaith mewn 6 blynedd.

Mae rhai pobl o'r farn y dylai'r ysgolion hynny sy'n gwneud yn dda iawn gael eu harolygu'n llai aml.

Mae'r adroddiadau y mae Estyn yn eu hysgrifennu am ysgolion yn helpu rhieni a phobl eraill i weld pa mor dda yw'r ysgolion yn eu hardal. Pe bai'r ffordd o arolygu ysgolion yn cael ei newid, gallai hynny olygu na fuasai gan rieni adroddiad Estyn i'w ddarllen am yr ysgol am amser hir.



## Cwestiwn 2



# Rhoi gwybod i ysgolion am ymweliad.

Mae'n rhaid i Estyn roi gwybod i ysgol 20 diwrnod cyn dod i ymweld â hi. Pe bai hyn yn newid i lai nag 20 diwrnod, dyma fwasai rhai o'r pethau positif:

- fe allai atal ysgolion rhag gor-baratoi a
- gallai athrawon fod dan lai o bwysau ynglŷn â'r ymweliad.

Ond fe allai achosi rhai problemau.

## Cyfarfod rhieni

Cyn arolygiad, mae'n rhaid i Estyn gyfarfod â rhieni i gael gwybod eu barn nhw ar yr ysgol. Dyma'r gyfraith. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid dweud wrth y rhieni am hyn mewn da bryd er mwyn iddyn allu dod i'r cyfarfod.

Mae rhai pobl yn meddwl y gellid newid y rhybudd sy'n cael ei roi i ysgol oherwydd:

- mae yna ffyrdd eraill i gynnwys rhieni. Nid yw llawer o rieni'n mynd i'r cyfarfodydd yma, ac mae rhai rhieni'n teimlo nad ydyn nhw'n gallu siarad am broblemau ynddyn nhw.

## Holiaduron

Mae Estyn yn defnyddio holiaduron ynglŷn â'r ysgol, y gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth a'r addysgu, a gall rhieni a disgyblion lenwi'r rhain a'u hanfon atyn nhw.

Mae hyn yn dda gan fod pawb yn cael y cyfle i ddweud eu dweud os ydyn nhw eisiau gwneud hynny.

Ond mae'n gallu cymryd cryn amser i'w hanfon allan, i'w cael yn ôl ac i ysgrifennu adroddiad arnyn nhw.

Mae rhai pobl o'r farn y gallen ni adael i'r ysgolion wneud eu holiaduron eu hunain a fwasai'n dod yn rhan o arolygiad Estyn.

## Peidio â rhoi gwybod o gwbl i ysgolion

Os na fwasai ysgol yn cael unrhyw rybudd o gwbl o ymweliad buasai'n anodd i bobl fynychu'r cyfarfodydd sy'n ofynnol dan y gyfraith.



## Cwestiynau 3, 4 & 5



# Ar ôl yr arolygiad

Pan mae Estyn yn arolygu ysgol ac yn gweld bod angen i'r ysgol wneud newidiadau, mae'r rheolau'n dweud bod yn rhaid i lywodraethwyr yr ysgol baratoi cynllun gweithredu ynglŷn â sut byddan nhw'n gwneud unrhyw newidiadau.

Gall gymryd 35 diwrnod ysgol i Estyn ysgrifennu adroddiad ar eu darganfyddiadau.

Yna, gall gymryd 45 diwrnod ysgol i'r llywodraethwyr ysgrifennu eu cynllun gweithredu  
**35 + 45 = 80 diwrnod ysgol!**

Mae rhai pobl o'r farn bod hyn yn rhy hir cyn i newidiadau ddechrau gwella'r ysgol.

Diolch am ddarllen hwn.

A fydddech chi cystal ag ateb y cwestiynau isod.

## Oeddech chi'n gwybod?

Mae'n wahanol pan mae pobl yn gwneud cymwysterau Safon Uwch neu pan maen nhw yn y coleg. Mae'r rheolau ar gyfer addysg i bobl dros 16 mlwydd oed yn wahanol oherwydd y modd o'i hariannu, felly mae eu cynlluniau gweithredu nhw'n cael eu hysgrifennu a'u rhoi ar waith yn syth ar ôl yr arolygiad.

## Cwestiynau 6, 7, 8 & 9

## Cwestiwn 1

A ddylid newid y 'rheol 6 blynedd' fel nad yw ysgolion yn gallu dyfalu pryd y bydd eu harolygiad nesaf yn digwydd?

- Dylid     Na Ddylid     Ddim yn Gwybod

Sylw

## Cwestiwn 3

A ddylai Estyn gadw'r cyfarfod rhieni fel rhan o arolygiad ysgol?

- Dylai     Na Ddylai     Ddim yn Gwybod

Sylw

## Cwestiwn 2

Pa mor aml ydych chi'n meddwl y dylid arolygu ysgolion?

- O fewn 6 blynedd  
 O fewn 7 mlynedd  
 O fewn 8 mlynedd  
 O fewn 9 mlynedd  
 Arall

Sylw

## Cwestiwn 4

A ddylai Estyn gadw ei holiaduron ei hun?

- Dylai     Na Ddylai     Ddim yn Gwybod

Sylw



## Cwestiwn 5

A ddylid cwtogi ar y rhybudd o 20 diwrnod y mae Estyn yn ei roi i ysgolion cyn arolygiad ar hyn o bryd.

Peidio â'i newid; ei gadw ar 20 diwrnod

### Ei gwtogi i:

15 diwrnod

5 diwrnod

1 neu 2 diwrnod

Arall

10 diwrnod

3 neu 4 diwrnod

Dim rhybudd

## Cwestiwn 7

A ddylai pob lleoliad addysg, gan gynnwys y rheini sy'n addysgu pobl dros 16 mlwydd oed, gael yr un cyfnod o amser i baratoi eu cynlluniau gweithredu?

Dylai

Na Ddylai

Ddim yn Gwybod

Sylw

## Cwestiwn 6:

A ddylid cwtogi ar yr amser y mae llywodraethwyr yn ei gymryd i baratoi eu cynllun gweithredu i wella ysgolion?

Dylid

Na Ddylid

Ddim yn Gwybod

Sylw





## Cwestiwn 8

Beth yw'r cyfnod amser iawn i baratoi cynlluniau gweithredu ar ôl cyhoeddi adroddiadau arolygu?

Peidio â'i newid; ei gadw ar 45 diwrnod

Ei gwthogi i:

15 diwrnod

5 diwrnod

10 diwrnod

Arall

## Opsynol

Eich enw:

Oedd:

Sefydliad:

## Cwestiwn 9

A oes yna unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud wrthon ni am y newidiadau rydyn ni'n ystyried eu gwneud i amseroedd arolygu Estyn?

Gallwch chi anfon eich atebion i:

Y Gangen Perfformiad Ysgolion  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd CF10 3NQ  
e-bost: SMED1@wales.gsi.gov.uk

